Adroddiad ar

# Meithrinfa Dydd Bloomfield

Tŷ Bloomfield,
Redstone Road,
Arberth
Sir Benfro
SA67 7ES

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Meithrinfa Dydd Bloomfield

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa Dydd Bloomfield |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Dim unigolyn cyfrifol wedi'i enwi ar hyn o bryd |
| Person â gofal | Cheryl Crowdy |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Ystod oedran y plant | Rhwng 6 wythnos a 5 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 5 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8am a 6pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant neu mae'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dim arolygiad blaenorol gan AGC |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dim arolygiad blaenorol gan Estyn |

| | |
|---|---|
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 21/10/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn**.

## Argymhellion

A1. Datblygu arsylwadau ymhellach i lywio'r camau nesaf mewn dysgu

A2. Parhau i wella'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y lleoliad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan blant lais cryf yn y lleoliad. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfynu sut i dreulio'u hamser yn yr amgylchedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored. Mae bron pob un o'r plant yn ymdopi â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni a'r rhai sy'n rhoi gofal iddynt yn llwyddiannus. Maent yn dangos hoffter clir am yr ymarferwyr ac yn eu gwahodd i ymuno yn y chwarae yn hapus. Mae ychydig o blant yn mynegi eu dymuniadau trwy ystumiau a mynegiannau'r wyneb, ac mae ymarferwyr ymatebol yn sylwi ar eu ceisiadau. Mae plant yn gyfarwydd ag arferion a disgwyliadau ymarferwyr.

Mae bron pob un o'r plant yn archwilio'u hamgylchedd yn ofalus ac yn ddiogel. Maent yn mwynhau'r rhyddid i symud o gwmpas yr ardaloedd dysgu ysgogol ac yn dewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt yn hyderus. Er enghraifft, maent yn mynd ati i gymryd rhan mewn gweithgareddau creu marciau gan ddefnyddio gwahanol offer, tra bod plant eraill yn dewis chwarae rôl gyda doliau. Mae llawer o blant yn mwynhau symud o un gweithgaredd i'r nesaf ac yn dyfalbarhau am gyfnod priodol. O ganlyniad, maent yn canolbwyntio'n dda yn ystod gwahanol dasgau, er enghraifft wrth symud cerbydau ar hyd y trac ar y wal neu archwilio'r hambwrdd pasta synhwyraidd. Mae bron pob un o'r plant yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn gytûn, gan gydweithredu a rhannu adnoddau'n dda. Maent yn dechrau cyd-chwarae a chefnogi ei gilydd yn briodol, er enghraifft wrth chwarae gêm rhedeg ar ôl a dal yn yr ardal awyr agored.

Mae bron pob un o'r plant yn ddysgwyr brwdfrydig ac ymgysylltiedig, sy'n mwynhau chwarae a dysgu gyda'i gilydd. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau ac ymarferwyr. Maent yn cael cyfleoedd helaeth i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a chwarae mewn grwpiau ffrindiau, y maent yn cymryd rhan ynddynt â phleser a brwdfrydedd. Er enghraifft, maent yn dangos cyffro ac yn chwerthin wrth symud ceir ar hyd y ramp anwastad.

Mae plant yn chwarae'n bwrpasol ac yn datblygu synnwyr o chwilfrydedd am y byd o'u cwmpas. O ganlyniad, mae ychydig o blant yn ymgolli'n llwyr mewn defnyddio pipedau i lenwi cynwysyddion â dŵr yn yr ardal awyr agored, yn ogystal ag archwilio sut gallant helpu toddi'r ciwbiau rhew mawr sydd wedi'u llenwi ag eitemau hydrefol. Yn ystod chwarae yn yr awyr agored, mae plant yn datblygu eu medrau corfforol a chymdeithasol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ymarfer eu medrau balansio tra'n reidio'r sgwteri ac yn chwerthin llawer pan fydd eu sgwteri'n taro i mewn i'w gilydd.

Mae bron pob un o'r plant yn ymateb yn dda i gyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, maent yn arllwys eu diodydd eu hunain ac yn defnyddio cyllyll a ffyrc yn fedrus. Mae eu medrau hunanofal yn dra datblygedig. O

ganlyniad, maent yn golchi a sychu eu dwylo'n annibynnol ac yn awyddus i wisgo'u cotiau heb gymorth.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair a phedair oed a oedd yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn cael addysg a ariennir yn rhywle arall i adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

### Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag atynt. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant ac yn dilyn polisi rheoli ymddygiad y lleoliad yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn gwrando, yn cydweithio ac yn esbonio mewn modd clir a gofalgar. Maent yn canmol plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau. Mae ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant, ac yn hwyluso datblygu'r medrau hyn yn llwyddiannus, er enghraifft eu hannog i helpu â thasgau syml a dewis gwahanol weithgareddau i gymryd rhan ynddynt.

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac yn rhoi gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol i gadw plant yn ddiogel. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn gywir, a chaiff y rhain eu llofnodi gan rieni a gofalwyr i gydnabod eu bod yn cael eu hysbysu'n rheolaidd. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau hylendid yn effeithiol. Yn rhan o arferion diogelu ehangach ac i sicrhau bod y plant yn ddiogel, maent yn cofnodi presenoldeb plant ar eu pen eu hunain. Mae ymarferwyr yn ymgymryd â'r holl hyfforddiant perthnasol i sicrhau bod prosesau'n cael eu bodloni. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae ymarferwyr yn annog plant i ddatblygu arferion hylendid effeithiol, fel golchi eu dwylo cyn bwyta a glanhau eu hwynebau wedi iddynt orffen. Maent yn creu cyfleoedd cymdeithasol ar gyfer plant adeg prydau bwyd ac yn annog bwyta'n iach, gan wneud yn siŵr fod dŵr yfed a llaeth ffres ar gael. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod digonedd o gyfleoedd i blant fod yn egnïol a chwarae yn yr awyr agored yn yr awyr iach. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ar draws y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni yn rheolaidd trwy ap, ac yn ystod sgyrsiau anffurfiol, yn ogystal. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth gyfoes am ddatblygiad eu plentyn yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn gweithredu trefniadau pwrpasol ar gyfer nodi a chefnogi anghenion unigol plant, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol posibl. Maent yn gweithio'n llwyddiannus gyda rhieni, gofalwyr, ac

asiantaethau allanol i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer plant. Mae cynlluniau effeithiol ar waith i gefnogi plant, gan sicrhau ymateb pwrpasol i'w hanghenion. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio iaith arwyddion yn effeithiol i feithrin medrau cyfathrebu a hyrwyddo cynhwysiant.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad plant yn llwyddiannus. Maent yn darparu ardaloedd dysgu diddorol ar gyfer plant, sy'n cael eu dylanwadu gan ddiddordebau'r plant. Mae gan ymarferwyr wybodaeth gynhwysfawr am anghenion a dewisiadau unigol plant, ac yn sicrhau eu bod yn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi a hyrwyddo lles plant yn fedrus.

### Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae dulliau addysgu effeithiol ymarferwyr yn cymell plant i ymgysylltu'n dda yn eu dysgu. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth plant. Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau sy'n annog plant i weithio gyda'i gilydd yn bwrpasol a datblygu eu medrau cymdeithasol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn annog plant i gasglu dail a choncyrs i wneud cawl yr hydref yn yr awyr agored a rhannu gwahanol eitemau chwarae yn y dŵr yn yr ardal ddŵr yn yr awyr agored.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo strwythur brawddegau da yn effeithiol tra bydd plant yn cymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae. Maent yn darparu amgylchedd sy'n gyfoethog o ran iaith ar draws y lleoliad, sy'n helpu cefnogi medrau cyfathrebu plant yn dda. Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn briodol yn ystod gweithgareddau ac yn fedrus o ran gofyn cwestiynau treiddgar i hyrwyddo annibyniaeth plant yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm diddorol a pherthnasol, sy'n ystyried diddordebau plant yn effeithiol. Maent yn cynllunio'n dda i gynnal chwilfrydedd a brwdfrydedd plant. Maent yn sicrhau bod plant yn dysgu trwy amrywiaeth o heriau diddorol trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer archwilio patrymau dail, gwneud brechdanau ac archwilio siapiau ffrwythau ar y blwch goleuadau.

Mae ymarferwyr yn annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n datblygu eu medrau llythrennedd yn bwrpasol. Er enghraifft, caiff plant eu hannog i siarad am y blociau hydref wedi rhewi yn yr hambwrdd synhwyraidd ac maent yn mwynhau creu marciau yn yr awyr agored. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau Cymraeg llafar plant yn briodol ac yn darparu cyfleoedd derbyniol i blant ymuno â chyfrif ac adnabod teimladau. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn profiadau dysgu ehangach yn gyfyngedig. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau rhifedd plant yn effeithiol. Maent yn herio plant yn fedrus i ddidoli a chyfrif adnoddau'r hydref a gwau gwahanol siapiau yn yr ardal awyr agored.

Mae ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau o gyflawniadau plant yn briodol. Mae hyn yn eu galluogi i rannu gwybodaeth werthfawr gyda rhieni a gofalwyr am ymgysylltiad eu plant trwy ddiweddariadau dyddiol a sianelau cyfryngau cymdeithasol diogel. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu o hyd y mae'r defnydd o arsylwadau i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant.

Mae ymarferwyr yn annog plant i arbrofi a mentro yn eu chwarae, sy'n datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Maent yn cyfoethogi'r profiadau hyn trwy wahodd ymwelwyr i'r lleoliad sy'n darparu gweithdai cyffrous, er enghraifft cyfle wythnosol i archwilio'r gofod awyr agored a chymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu pwrpasol yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn frwdfrydig am eu chwarae ac yn datblygu eu dealltwriaeth o'r byd naturiol yn dda.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn gadarnhaol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn dda, trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a thrwy ymweliadau â'r ardal leol, fel ymweld â chastell, pwll melin a thraeth cyfagos. Maent yn annog dealltwriaeth o amrywiaeth ddiwylliannol yn gadarnhaol. Er enghraifft, maent yn mwynhau llyfrau, jig-sos, chwarae â doliau a gwisgo i fyny, yn ogystal â dysgu am wahanol ddathliadau fel Diwrnod VE, Diwali a'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad moesol plant yn effeithiol trwy feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn ystod tasgau lle mae plant yn rhannu ac yn cymryd eu tro yn dda. Mae hyn yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu plant i wahaniaethu rhwng da a drwg ac yn helpu datblygu perthnasoedd hynod effeithiol. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant i ddysgu mewn cyd-destunau dilys yn gyson, ac o ganlyniad, mae plant yn dangos parch am wrthrychau o'u cwmpas. Mae ymarferwyr yn annog plant i weini byrbryd a chinio iddyn nhw eu hunain gan ddefnyddio llestri a gwydrau a chwarae yn y gornel gartref gyda chyfarpar cegin tra'n gwneud brecwast dychmygus.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn cael ei gynnal yn dda. Mae ganddynt drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r lleoliad. O ganlyniad, maent yn hyrwyddo diogelwch a lles plant yn effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod creadigrwydd a llwyddiannau plant yn cael eu dathlu ar draws yr amgylchedd trwy arddangosfeydd o'u gwaith a ffotograffau ohonynt yn chwarae. Maent yn annog rhieni a gofalwyr i anfon ffotograffau o'r teulu i'r lleoliad i'w harddangos er mwyn i'r plant eu gweld a chyfeirio atynt. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ymdeimlad o berthyn.

Mae arweinwyr yn datblygu a chynnal ystod o asesiadau risg cynhwysfawr, y mae ymarferwyr yn eu rhoi ar waith yn briodol i gefnogi cynnal y lleoliad yn ddiogel ac yn esmwyth. Maent yn sicrhau bod staff yn dilyn ystod o bolisïau clir a chynhwysfawr, sy'n eu

galluogi i hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles plant yn effeithiol. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn goruchwylio plant yn dda trwy gydol eu profiadau chwarae a dysgu. Mae ymarferwyr yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd gan alluogi plant i ymgyfarwyddo â beth i'w wneud mewn argyfwng. Yn ychwanegol, maent yn sicrhau bod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod tystysgrifau diogelwch ar waith.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ganddynt amrywiaeth eang o ddodrefn o ansawdd da sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Maent yn darparu amrywiaeth o adnoddau ar gyfer plant, sy'n hygyrch iddynt. O ganlyniad, caiff plant fynediad hawdd at offer sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau annibynnol a dilyn eu diddordebau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau naturiol ar gael i ddatblygu medrau synhwyraidd, iaith, rhifedd a hunanymwybyddiaeth plant. Mae corneli cysurus deniadol yn galluogi plant i fwynhau amser tawel. Mae arweinwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant am y byd o'u cwmpas a'u cymuned yn bwrpasol. Er enghraifft, mae llyfrau, doliau, ffigurau byd bach a phosau pren wedi'u cysylltu â gwahanol ddiwylliannau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Maent yn defnyddio adnoddau dilys a deunyddiau naturiol, yn ogystal â theganau sy'n ddatblygiadol briodol, gan roi cyfleoedd cyfoethog i blant chwarae a dysgu.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi creu ardal yn yr awyr agored a ddefnyddir yn dda, sy'n galluogi plant i brofi ystod eang o gyfleoedd dysgu. O ganlyniad, mae gweithgareddau amrywiol ar gael i blant ddatblygu eu chwilfrydedd, trwy chwarae yn y dŵr a'r tywod, plannu, gwau a chreu marciau. Mae arweinwyr hefyd yn darparu cyfleoedd i blant feithrin medrau corfforol fel dringo grisiau'r llithren, balansio ar sgwteri a neidio oddi ar gretiau plastig. Maent yn sicrhau amgylchedd caeëdig a diogel yn yr awyr agored.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir a phwrpasol sy'n gyrru gwelliant parhaus yn y lleoliad. Maent yn gweithio'n ddiwyd ac ar y cyd i roi strategaethau effeithiol ar waith sy'n canolbwyntio ar ehangu'r ddarpariaeth a gwella deilliannau ar gyfer plant. Trwy eu hagweddau cadarnhaol a'u harferion cyson, mae arweinwyr yn creu amgylchedd dysgu cefnogol ac ysgogol sy'n darparu profiadau pwrpasol ac yn hyrwyddo datblygiad plant yn llwyddiannus. Mae rôl Unigolyn Cyfrifol newydd wrthi'n cael ei sefydlu ar hyn o bryd.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm ac yn mynychu cyfleoedd hyfforddi priodol i wella'u harferion addysgu a gofal. O ganlyniad, maent wedi eu cymell ac yn awyddus i lwyddo. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn darparu gofal gwerthfawr a chadarnhaol ar gyfer plant. Maent yn defnyddio staff yn effeithiol i sicrhau eu bod yn bodloni cymarebau. Mae hyn yn creu ymdeimlad cryf o berthyn o fewn y lleoliad. Mae'r ethos gofalgar ac anogol hwn yn annog plant i wneud eu gorau a dyfalbarhau yn ystod sesiynau dysgu a chwarae. Mae arweinwyr hefyd yn sicrhau eu bod

yn diweddaru dogfennau, polisïau ac arferion statudol y lleoliad yn rheolaidd ac maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel yn gyson. Mae ymarferwyr yn meddu ar gymwysterau addas, ac mae arweinwyr yn cynnal arfarniadau staff rheolaidd sy'n nodi amcanion gwella ac anghenion hyfforddi clir.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar gyflwyno gwelliannau a gynlluniwyd yn dda i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Maent yn cynnal prosesau hunanwerthuso effeithiol, sy'n eu helpu i nodi cryfderau ac yn arwain at dargedau cywir ar gyfer gwella. Er enghraifft, maent wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar gyfathrebu effeithiol â rhieni trwy ap y lleoliad, sy'n rhannu profiadau plant yn y lleoliad ac yn annog rhieni i gymryd rhan yn eu dysgu a'u cynnydd.

Mae arweinwyr yn ystyried safbwyntiau pawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys rhieni a gofalwyr, y maent yn cynnal cyswllt rheolaidd â nhw am ddatblygiad eu plant. Maent yn cynnal trafodaethau buddiol â rhanddeiliaid i wella ansawdd y ddarpariaeth, ac yn gweithredu ar gyngor gan asiantaethau cymorth. O ganlyniad, caiff arweinwyr a staff eu gyrru i sicrhau bod plant yn cael eu cynorthwyo'n effeithiol wrth geisio goresgyn heriau datblygiadol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu ystod o bartneriaethau buddiol i helpu cefnogi datblygiad cyfannol plant a'u hymwybyddiaeth o'r ardal leol. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r orsaf drenau, y gwasanaethau brys, y siopau cyfagos a'r fferm bwmpenni. Yn ychwanegol, gwahoddir rhieni i fynychu gweithdai i deuluoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ochr yn ochr â'u plant.

Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau yn effeithiol ac yn defnyddio grantiau i lywio gwariant yn erbyn eu blaenoriaethau. Er enghraifft, maent wedi defnyddio cyllid yn effeithiol i wella nodweddion ffisegol y gofod yn yr awyr agored, ac wedi ystyried anghenion datblygiadol plant i ddarparu adnoddau effeithiol ar eu cyfer.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/2025